



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Galwad agored am gyflenwyr ‘Neges’

Bydd y prosiect ‘Neges’ - “cynnyrch lleol i’ch croesawu” - yn hwyluso ac yn cydlynu darpariaeth bwyd lleol ar gyfer y sector hunan-arlwyio e.e. bythynnod, unedau glampio, cabanau...

Bydd y cynllun a gynhelir gan Menter Môn ac a ariennir drwy’r Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio (UE / Llywodraeth Cymru), yn rhedeg tan fis Mehefin 2023 gyda mwyafrif o’r weithgaredd yn digwydd yn ystod tymor twristiaeth 2022.

Nod

Nod y prosiect yw rhoi opsiwn bwyd a diod lleol i ymwelwyr sy’n aros mewn llety hunanarlwyio yn yr ardal, a fydd yn arddangos y llu o gynhyrchwyr o ansawdd sydd i’w cael yn yr ardal a rhoi ymdeimlad o le drwy ystod o ddeunydd ategol. Caiff ‘Neges’ ei gynnal mewn partneriaeth â chyflenwyr bwyd a diod a darparwyr unedau hunan-arlwyio yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill o’r sector cyhoeddus a’r sector preifat. Caiff y prosiect ei gynnal ar draws siroedd Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy.

Beth mae ‘Neges’ yn chwilio amdano?

Rydyn ni’n chwilio am 5 o gyflenwyr lleol i gydweithio â ‘Neges’ i ddatblygu a threialu nifer o becynnau bwyd a diod rhanbarthol arloesol ar gyfer y sector twristiaeth yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy, pecynnau sydd naill ai’n cael eu danfon neu eu casglu, o wyliau Pasg 2022 ymlaen.

Disgwyliwn y bydd gan adwerthwyr, dosbarthwyr, gweithgynhyrchwyr, bwytai a chlwstwr o gynhyrchwyr ddiddordeb mewn gweithio gyda ‘Neges’ fel cyflenwr.

Hoffem dreialu gwahanol syniadau ar draws y 3 sir, gan dargedu amrywiol gynulleidfaoedd a threialu dulliau dosbarthu gwahanol. Rydym eisiau osgoi cystadleuaeth rhwng y syniadau y bydd ‘Neges’ yn eu cefnogi fel rhan o’r treial hwn.

Rydym yn awyddus i o leiaf 2 o’r 5 cyflenwr a ddewisir fod â thrwydded i werthu alcohol.

Beth yw’r cam nesaf?

Os ydych chi’n ateb “ydym” i bob un o’r canlynol, cysylltwch â ni drwy’r manylion cysylltu ar y diwedd.

Rydym yn chwilio am GYFLENWYR sydd:

- Wedi’u lleoli yng Ngwynedd, Ynys Môn neu Gonwy.
- Yn fusnesau bwyd cofrestredig gyda’u Hawdurdod Lleol/Cyngor Sir perthnasol ac wedi cael sgôr hylendid “ar y drws” o 4 neu uwch yn eu harchwiliad diwethaf.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



- Yn gallu datblygu pecyn bwyd arloesol o gynhyrchion/cynhwysion lleol yn bennaf, nad yw'n cael ei ddarparu'n lleol ar hyn o bryd. Caiff cynhyrchion lleol eu diffinio fel rhai a gynhyrchir yng Ngwynedd, Ynys Môn neu Gonwy, NEU gynhyrchion a wneir gan ddefnyddio prif gynhwysyn sydd wedi'i dyfu/magu yng Ngwynedd, Ynys Môn neu Gonwy.
- Yn barod i weithio gyda 'Neges' i arddangos y Gymraeg, bwyd lleol a'i dreftadaeth i'r sector hunan-arlwydo.
- Yn gallu dangos y capasiti angenrheidiol i gyflawni eu syniadau ac yn meddu ar y gallu i dyfu os oes angen.
- Yn gefnogol ac yn barod i gydweithredu ar greu a hyrwyddo cynnwys dwyieithog Cymraeg a Saesneg.
- Yn meddu ar eu brand eu hunain i werthu'r pecyn bwyd neu yn barod i ddatblygu brand ar ei gyfer, ac wedi ymrwymo i ddatblygu atebion cynaliadwy megis defnyddio deunyddiau pecynnu gwyrdd.
- Yn meddu ar bresenoldeb digidol dwyieithog da ee. gwefan, cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, e-gylchlythyrau... a/neu yn barod i ddatblygu presenoldeb fel hwn.
- Yn gyfforddus yn bod yn ystwyth ac yn atebol i adborth a geir yn ystod y treial.
- Yn barod i roi sylwadau ac adborth i dîm y prosiect a'r gwerthuswyr a benodir.

Beth all 'Neges' ei gynnig ichi?

Nod cyffredinol prosiect 'Neges' yw lleihau'r risg i fusnesau sydd eisiau treialu pecynnau bwyd a diod arloesol, a darparu amrywiol fesurau cymorth. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Hwyluso cydweithrediad â busnesau eraill ar draws y gadwyn gyflenwi.
- Dod o hyd i fusnesau lleol a chenedlaethol sy'n delio â chwsmeriaid yn y sector lletyau hunan-arlwydo i weithio gyda nhw ar dreialu'r pecynnau bwyd ee asiantau gwyliau, perchnogion bythynnod, meysydd carafannau, lleoliadau glampio.
- Cyfrannu at y gost o redeg treialon, prynu deunydd pecynnu gwyrdd a chynhyrchu deunydd ategol ar gyfer pecynnau megis cardiau ryseitiau a chynnwys ar wefannau.
- Comisiynu cefnogaeth arbenigol lle bo angen i ddatblygu pecynnau bwyd ee datblygu ryseitiau, cywreinio neu egluro syniadau, dewis deunydd pecynnu gwyrdd amgen, meddalwedd ar gyfer prosesu archebion...
- Rhannu gwybodaeth o'r farchnad am dueddiadau a disgwyliadau defnyddwyr.
- Darparu cefnogaeth a gwybodaeth am sut gallwch chi ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol a datblygu "ymdeimlad o le" cryf yn eich pecynnau a gweithgareddau'r busnes o ddydd i ddydd.
- Cyhoeddi'r ddarpariaeth a ddatblyga'r cyflenwyr i gynulleidfa ehangach ee mewn gwyliau bwyd, sioeau masnach...
- Comisiynu gwasanaethau ffotograffiaeth proffesiynol i greu portffolio o ddelweddau y gall cyflenwyr eu defnyddio i farchnata.

Sut i Ymgeisio?

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyfranogi fel un o gyflenwyr pecynnau 'Neges', a fydddech gystal â llenwi'r ffurflen gais isod erbyn Tachwedd 30^{ain}, 2021.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ffurflen Gais: <https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=847zNnlo-E2m0Dz5KX8G-JTFpBoC4dhPkDGYyeGywwlUMU01UkdRVlpQWkVJMU5DU1ozMFRFNfk1Qi4u>

Manylion cysylltu 'Neges'

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Rhys Gwilym ar 01766 514057 neu ei e-bostio ar rhys@mentermon.com